

Astudiaeth Achos a Gyhoeddir: Stori Evan


Manylion:

Mae Evan yn ei ugeiniau cynnar, gadawodd yr ysgol yn 16 oed heb unrhyw gymwysterau TGAU ac mae ganddo nam ar ei synhwyrâu, anhawster dysgu a gorbryder ac iselder. Ynghyd ag arian y Loteri, mae Her Cymru wedi creu ei rhaglen Voyages of Discovery sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc dan anfantais ddysgu sgiliau meddal ac i ennill achrediad cydnabyddedig drwy hwylio.

Mordeithiau:

Ymunodd Evan â Her Cymru fel rhan o grŵp o elusen Leonard Cheshire Disability. Roedd yn cymryd rhan mewn mordaith un diwrnod i gychwyn ac yna datblygodd i fod ar fordaith breswyl fer dros ddau ddiwrnod gydag aelodau eraill o'i grŵp. Cymerodd ran mewn nifer o'r gweithgareddau tîm ar y llong a oedd yn amrywio o hwylio i helpu yn y gegin. .

Y Canlyniadau:



- Nododd arweinydd ei grŵp fod Evan wedi goresgyn ei nerfuswydd a'i fod yn awyddus i gymryd rhan mewn unrhyw dasg a oedd yn gofyn am gymorth gan wirfoddolwyr. Rhoddodd lawer o help i un aelod o'i grŵp a oedd yn cael trafferth gyda'i chydbwysedd.
- Dywedodd Evan ei fod "yn nerfus ac yn gyffrous cyn y fordaith ond ei fod yn **falch** o'i hun ar ôl ei chwblhau" wrth drafod ei brofiad ar y fordaith gyntaf.
- Dywedodd Evan ei fod wedi **gweithio fel tîm** a gwranddo ar gyfarwyddiadau a wnaeth alluogi'r grŵp i godi'r hwyliu.
- Yn dilyn yr ail fordaith, nododd Evan fod **y fordaith wedi'i helpu gyda'i orbryder ac iselder**.
- Drwy helpu Evan i oresgyn ei orbryder ac iselder, **nid oedd angen iddo ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl mor aml**.
- Aeth Swyddog Datblygu Ieuentid Her Cymru a Gwerthuswr Annibynnol i ymweld ag Evan a'i grŵp cyn ac ar ôl y fordaith ac roedd y Swyddog Datblygu Ieuentid yn bresennol yn ystod y ddwy fordaith. Gan ddefnyddio dull sgorio i werthuso Canlyniadau, dangoswyd bod **hyder Evan wedi codi** ynghyd â sgôr ei sgiliau ond yn ei **iechyd meddwl/corfforol** y cafwyd y cynnydd mwyaf.
- Gwnaeth Evan **sicrhau achrediad** mewn *Gwaith Tîm* a *Datblygu Hyder Personol* drwy Agored Cymru.
- Drwy werthusiad annibynnol gallwn ddangos bod y prosiect wedi **creu gwerth ariannol** (arbedion enwol i'r wladwriaeth) a **gwerth cymdeithasol** (buddiannau ehangach i'r unigolyn a'r gymdeithas).
- Yn achos Evan, gwnaeth prosiect *Voyages of Discovery* Her Cymru **greu gwerth £7.43 ar gyfer pob £1 a fuddsoddwyd iddo**.

"Y canlyniad mwyaf arwyddocaol oedd gweld cynnydd mawr mewn hyder personol a gwaith tîm. Roedd pawb yn falch iawn o'u cyflawniadau. Roedd criw Her Cymru yn wych ac yn dda iawn yn gweithio gyda'r bobl ifanc â lefelau a gofynion gwahanol o ran eu hanawsterau dysgu." Arweinydd Grŵp